
Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 17 Hydref 2011



## Mi glywais lais yr Iesu'n dweud, 'Tyrd ataf fi yn awr'

*Llun: Fishers of Men (Simon Dewey)*

Annwyl ffrindiau,

Bydd pawb ohonom o dro i dro yn derbyn gwahoddiad – cyfaill neu berthynas efallai yn ceisio ein perswadio i fynd gydag ef neu hi i weld rhyw ddrama neu gyngerdd. “Tyrd yn gwmni i mi. Mae’n werth mynd. A does dim llawer o docynnau ar ôl!” Weithiau, mi dderbyniwn y gwahoddiad yn llawen. Bryd arall, byddwn yn fwy petrus ac oediog. “Ie, ’falle dof i. Cawn weld. Mae’n dibynnu sut fydd yr hwyl.” A phan ddaw’r amser pryd y bydd yn rhaid penderfynu y naill ffordd neu’r llall, gwrthod y gwahoddiad a wnawn. “Dim tro ’ma. Rywbryd ’to.” Ond yna, wedi i’r achlysur fynd heibio, byddwn yn edifar am na ddaliasom ar y cyfle.

Roedd yr Arglwydd Iesu yn hoff iawn o estyn gwahoddiad. Wn i ddim faint o weithiau y dywedodd e’r gair “tyrd” neu “dewch” wrth sgwrsio â gwahanol bobl – droeon, mae’n siŵr. Gwnaeth hynny ar ddechrau ei weinidogaeth pan gafodd y deuddeg disgybl wahoddiad i’w ddilyn. Tra oedd yn cerdded ar lan Môr Galilea, gwelodd Iesu Simon a’i frawd Andreas yn bwrw eu rhwydi pysgota i’r llyn. Galwodd arnynt i ddod ar ei ôl gan addo eu gwneud yn bysgotwyr o fath gwahanol: yn bysgotwyr dynion. Yn wyrthiol bron, gadawodd Simon ac Andreas eu rhwydi a’i ganlyn. Dim holi cwestiynau, dim petruso, dim amau pwy oedd Iesu a beth oedd ei fwriad ac i ble’r oedd yn mynd, dim gofyn beth oedd y “*fringe benefits*” neu faint o amser rhydd y byddent yn ei gael – dim ond gadael popeth er mwyn ei ddilyn. Efallai eu bod nhw eisoes wedi clywed am Iesu ac yn ymwybodol o’i bregethu grymus, llawn tosturi. Pwy ŵyr! Beth bynnag oedd y cymhelliad i’w ddilyn, maent yn derbyn y gwahoddiad yn llawen gan ymateb iddo, yn union fel y gwnaeth Iago ac Ioan a’r disgyblion eraill.

Fel yn hanes y disgyblion cyntaf, mae’r Iesu yn ein gwahodd ninnau heddiw i brofi ei gwmni, mewn gweddi ac addoliad ar y Sul, mewn dosbarth Beiblaidd a chylch trafod. “Dewch i weld.” (Ioan 1:39) Dewch i weld yr Un sy’n eich gwahodd i bethau ysbrydol uwch. Fedra i ddim dweud faint o weithiau y gofynnodd E a wnewch chi ddod. Y tebyg yw ein bod ni wedi’i wrthod E lawer gwaith ac wedi’i gadw yn disgwyl am yn hir ar drothwy ein meddyliau neu ar gyrion ein bywydau.

A hyd yn oed os gwnaethon ni agor drws ein calonnau iddo roedd gennym bob math o esgusodion tila rhag derbyn ei wahoddiad. Efallai ein bod wedi teimlo nad oedd unrhyw werth mewn dod i'r cwrdd yn rheolaidd ar y Sul. Efallai ein bod wedi teimlo nad oedd gyda Fe, drwy enau ei gennad, ddim byd o werth i'w gynnig i ni, neu'n wir nad oedd dim byd o werth gyda ni i'w gynnig yn ei wasanaeth ac i'w eglwys. Ond dyna lle'r ŷn ni wedi'i cholli hi. Cawsom i gyd ein donio mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae Ef bob amser am ein cymhwyso i waith y Deyrnas. Mae ef am ddatguddio ei ddoethineb a'i allu. Mae ef am gynnig meddyginiaeth i'n heneidiau clwyfus. Mae ef am roi i ni'r hyn na allwn ni mo'i brynu gan neb arall: maddeuant, tangnefedd a bywyd yn ei holl gyflawnder, bywyd llawn llawenydd a dedwyddwch.

A wnawn ni dderbyn ei wahoddiad? Efallai mai drwy enau perthynas, cyfaill neu gymydog y daw'r gwahoddiad yn y lle cyntaf. Mae arolygon wedi dangos nad athrawiaethau neu ddiwinyddiaeth eglwys unigol sy'n gyfrifol am ei thwf a'i datblygiad, nid marchnata a hysbysebu chwaith, ac yn sicr ddigon nid pregethu neu waith bugeiliol y gweinidog. Na, mae 70–90% o'r bobl sy'n ymuno â'r Eglwys yn gwneud hynny am fod gwahoddiad syml wedi'i estyn iddynt yn y lle cyntaf: "Dewch i weld." (Ioan 1:39) A wnawn ni dderbyn ei wahoddiad? A wnawn ni ddilyn Iesu mewn ffydd a bod o wasanaeth iddo yn yr Eglwys? Gall yr Iesu drawsnewid ein bywydau ar unrhyw adeg.

Mi glywais lais yr Iesu'n dweud,
  "Tyrd ataf fi yn awr,
flinderog un, cei ar fy mron
  roi pwys dy ben i lawr."
Mi ddeuthum at yr Iesu cu
  yn llwythog, dan fy nghlwyf;
gorffwysfa gefais ynddo ef
  a dedwydd, dedwydd wyf.

*Horatius Bonar*
(cyf. *Y Caniedydd Cynulleidfaol Newydd*, 1921)

Yr eiddoch yng Nghrist,
Wyn Morris (Bugail)

# Tudalen y Plant

## Stori 4 Pobl y cwrddodd Iesu â nhw – Mathew



DARLLENWCH
Luc 5: 27-32



ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 5: 32

*Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnodau hyn.*

Roedd rhai pobl yn rhyfeddu at y pethau yr oedd yr Arglwydd Iesu'n eu gwneud ac yn eu dweud. Roedd rhai yn gadael eu gwaith a hyd yn oed eu cartrefi i'w ddilyn e. Dyma stori un o'r dynion hynny. Lefi oedd ei enw e ond roedd e'n cael ei alw'n Mathew hefyd.

Un diwrnod, roedd Mathew'n eistedd wrth ochr y ffordd yn casglu trethi. Y Rhufeiniaid oedd yn rheoli'r wlad ac roedd pobl yn dod at Mathew i dalu'r trethi yr oedd y Rhufeiniaid yn eu codi.

Doedd neb yn hoff iawn o Mathew gan ei fod e'n gweithio i'r gelyn, y Rhufeiniaid. Roedd e'n amhoblogaidd hefyd am ei fod e'n cadw peth o'r arian yr oedd pobl yn ei dalu iddo yn lle'i roi i'r Rhufeiniaid. Felly, roedd e'n lleidr.



**C Rhowch y llythrennau yn eu trefn gywir.**

Enw arall ar Lefi  T M A W H E  _ _ _ _ _ _ .

Roedd Mathew'n casglu'r rhain  R E TH I T  _ _ _ _ _ .

Roedd Mathew'n gweithio i'r rhain

D I N F E RH I U A I  _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ .

Roedd rhai pobl yn meddwl bod Mathew'n  R I D LL E  _ _ _ _ _ .




Daeth Iesu at Mathew a dweud wrtho, "Dilyn fi." Doedd Mathew ddim yn gallu credu ei glustiau! Meddyliodd, "Ydi Iesu wir eisiau i ddyn fel fi ei ddilyn e? Oes ots gan Iesu amdana i?"

Penderfynodd Mathew, os oedd Iesu'n gofyn iddo, byddai'n mynd gydag e ar unwaith. Cododd a dilyn Iesu gan adael popeth.

**O wefan amserbeibl.org**

Y dasg y tro hwn yw rhoi'r llythrennau yn y drefn gywir. Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Hydref**.

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i Glesni Morgan, ysgol Sul y Garn, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.**

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

*Cyhoeddiadau'r Ofalaeth*

| | |
|---|---|
| 8 Hydref: | Taith Ann Griffiths (ardal Dolanog) |
| 9 Hydref: | Oedfa ddiolchgarwch yr ofalaeth<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at Apêl Elain |
| 23 Tachwedd: | Pwyllgor 'Os Mêts' am 7 o'r gloch<br>yn festri'r Garn |
| 5 Rhagfyr: | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>yn festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 11 Rhagfyr: | Oedfa Nadolig y plant<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at yr ysgol Sul |
| 25 Rhagfyr: | Oedfa gymun ar fore'r Nadolig<br>Capel y Garn am 9 o'r gloch<br>Capel Rehoboth, Taliesin, am 10 o'r gloch |
| 31 Rhagfyr: | Gwylnos i groesawu'r flwyddyn newydd<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel y Garn am 11.30 p.m. |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:

www.capelygarn.org

# OS MêTS

rhan o fenter gydenwadol eglwysi
gogledd ceredigion

# gweithgareddau'r hydref 2011


arweinydd
Efan Miles Williams
efanmiles@gmail.com
01974-251-487

# Os MêTS

## gweithgareddau'r Hydref 2011

Nos Iau 29 Medi
**taith feicio noddedig i gapel bangor**
(ar y llwybr beiciau) sglodion wedyn
maes parcio dan dre, Aberystwyth 7.00

Nos Iau 6 Hydref
**swper y cynhaeaf a gweithdy**
festri capel y garn 7.00

Nos Iau 13 Hydref
**cynnal cwrdd diolchgarwch**
cartref tregerddan, bow street 7.00

Nos Iau 10 Tachwedd
**gweithdy coginio**
neuadd tal-y-bont 7.00

Nos Iau 24 Tachwedd
**gwibdaith: manylion i ddod**

Nos Fercher 7 Rhagfyr
**cerdyn, crefft a chân**
neuadd tal-y-bont 7.00

Nos Iau 22 Rhagfyr
**canu carolau**
cartref tregerddan ac afallen deg 7.00

## *Pererinion Seion*

Yn ystod mis Awst trefnwyd dwy bererindod i aelodau Seion a ffrindiau o’r ardal. Trefnwyd y gyntaf gan Elen Lewis, Sarnau Fawr, a’r ail gan John Williams, Bwlch Bach, ac rydym yn ddyledus i’r ddau ohonynt am drylwyredd eu hymchwil, eu gwybodaeth a’u brwdfrydedd.

Ym mhentref Llanfihangel y Creuddyn y cychwynnodd y daith gyntaf brynhawn Sul, 14 Awst, ac wedi cael ychydig o hanes y pentref aeth pawb i’r Eglwys. Ymhlith manylion diddorol eraill soniodd Elen am gynllun yr eglwys ar lun eglwys Llanbadarn Fawr, y tŵr anghyffredin o uchel a hynny er mwyn gallu edrych i lawr ar eglwys Llanilar, a dyddiadau trawiadol yn hanes yr eglwys ers ei chodi yn y drydedd ganrif ar ddeg.

Cafwyd gwasanaeth i orffen – gyda Nest Jenkins yn adrodd darn o’r ysgrythur yr enillodd wobr gyntaf arno yn Wrecsam eleni, John Gwynn yn gweddïo ac Olwen Jones yn canu, a phawb yn uno i ganu emyn o eiddo’r emynydd lleol Glanystwyth, ‘Ysbryd y gwirionedd, tyred yn dy nerthol ddwyfol ddawn’.

Dringodd y naw cerbyd wedyn i fyny at Lyn Alltderw gan ddwyn i gof y chwedl ramantus, ond drist, sy’n gysylltiedig â’r lle. Daeth y bererindod i ben yn fferm hynafol teulu’r Hopkinsiaid, Pengwernydd, gyda hanes diddorol y dargyfeirio modern yno i ddarparu bythynnod gwyliau o dai allan y fferm gan Margaret Hopkins a the croesawus i ddathlu prynhawn difyr iawn cyn troi am adre.

Brynhawn Sul, 21 Awst, teithiwyd i Pisga a draw uwchben Cwm Magwr i gael hanes y ffermydd a’u trigolion ar lawr y dyffryn ganrif a hanner yn ôl. Syndod i bawb fu deall bod hynafiaid yr enwog Daniel Rowland, Llangeitho, yn byw yn Llanerchpentir ac enwogion eraill o’r ardal megis y gweinidog Wesle a’r emynydd, Glanystwyth.



Ymlaen wedyn heibio i Lyn Fron-goch i ymyl Eglwys Llantrisant ac edrych draw at y bryncyn ger chwarel Fron-goch lle'r arferid cynnal Cwrdd Gweddi adeg Diwygiad 1859 a chymaint â thair mil o bererinion yn gweddïo yno.

Teithiwyd oddi yno wedi cael llawer mwy o hanesion am y llecyn, heibio i Gapel Salem, Mynydd Bach, heb oedi yno ac i Eglwys Newydd yr Hafod lle cynhaliwyd gwasanaeth dan arweiniad John Tudno a chyd-ganwyd emyn y pererinion o waith John Bunyan, cyf. O.M. Lloyd, 'A fynno ddewrder gwir, O deued yma'. A'r haul yn gwenu'n danbaid arnom ar ddiwedd y prynhawn cafwyd picnic ar lecyn uwchben yr eglwys i orffen y teithio – am y tro.

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***

Cymanfa Ddathlu Hanner Canmlwyddiant y gyfres
Capel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, dan arweiniad
Owain Arwel Hughes, pnawn Sul, 2 Hydref am 2 o'r gloch.

Darllediad o'r rhaglen gyntaf o'r Garn
nos Sul, 2 Hydref ar S4C am 8 o'r gloch.



*Bedydd Tomos Cai, mab bach Ian ac Ann Elias*
*yng Nghapel y Garn, 19 Mehefin*









*Plant*
*ysgol Sul y Garn*
*yn mwynhau eu*
*trip blynyddol*

*Gorffennaf 2011*



## *Grŵp Help Llaw*



Mae'r cyfle wedi dod unwaith eto i ni, aelodau a chyfeillion, i lenwi bocs sgidiau ar gyfer Operation Christmas Child. Mae pamffledi gyda'r wybodaeth angenrheidiol ar gael gan Shân a Bethan, a gofynnwn yn garedig i chi ddilyn y cyfarwyddiadau, os gwelwch yn dda. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn eich bocsys yw 16 Tachwedd.

Y llynedd, anfonwyd yn agos at 1.2 miliwn o focsys o'r Deyrnas Unedig i bob rhan o'r byd.

Braint yw cael bod yn rhan o'r ymgyrch flynyddol yma. Diolch am eich cefnogaeth.

Shân (828268) Bethan (611502)

## Cymdeithas Chwiorydd y Garn
### Pwyllgor 2011–12

| | |
|---|---|
| Llywydd: | Y Barch Judith Morris |
| Cadeirydd: | Llinos Dafis |
| Ysgrifenyddes: | Shân Hayward |
| Is-ysgrifenyddes: | Nans Morgan |

Aelodau eraill o'r pwyllgor:

| | |
|---|---|
| Ray Evans | Kathleen Lewis |
| Meinir Lowry | Gwenan Price |
| Margaret Rees | Mary Thomas (Llandre) |

Mae'r Chwiorydd yn cyfarfod ar y pnawn Mercher cyntaf yn y mis am 2.30 o'r gloch yn festri'r Garn. Croeso cynnes i bawb.

## Hydref

*Blaenor y Mis: D Bryn Lloyd*

*I gyfarch wrth y drysau: D Elystan-Morgan / Dewi G Hughes*

**2** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa: Parch Richard Lewis
Oedfa'r hwyr yn y Garn: Raymond Davies

Dechrau Canu, Dechrau Canmol o Gapel y Garn
S4C am 8 o'r gloch

5 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Cwrdd diolchgarwch yng ngofal y Barch Judith Morris

8 Taith Ann Griffiths (Ardal Dolanog)

**9** Oedfa ddiolchgarwch yr ofalaeth dan arweiniad y Bugail
yng Nghapel y Garn am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at Apêl Elain

**16** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore

19 Pwyllgor yr ysgol Sul am 7.30 o'r gloch

**23** Parch Maldwyn C John

28 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Noson yng nghwmni Tecwyn Ifan

**30** Bugail

***Cinio i Bregethwyr***

Mae'r Blaenoriaid yn awyddus i lunio rhestr o'r aelodau a fyddai'n barod i gynorthwyo drwy roi cinio yn achlysurol i bregethwyr sy'n ymweld â'r Garn. Rhowch eich enwau i'r Ysgrifennydd, os gwelwch yn dda. Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

**Tachwedd**

*Blaenor y Mis: D Elystan-Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian B Hughes*

| | |
|---|---|
| 2 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch<br>'Hel Atgofion' – Dr Terry Edwards |
| **6** | Bugail<br>Parch Ddr Terry Edwards<br>Noddfa yn ymuno yn y Garn |
| **13** | Parch Eifion Roberts |
| 16 | Dyddiad olaf derbyn bocsys llawn<br>ar gyfer Operation Christmas Child |
| 18 | Pwyllgor Blaenoriaid am 7 o'r gloch |
| **20** | Bugail<br>Cymun yn oedfa'r bore<br>Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre |
| 23 | Pwyllgor Gweithredol ac Ymgynghorol 'Os Mêts'<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 25 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'Agweddau ar hanes gogledd Ceredigion' –<br>Gwyn Jenkins |
| 26 | Bore coffi dan ofal y Swyddogion yn y festri<br>10 tan 12 o'r gloch – yr elw tuag at y capel |
| **27** | Parch M J Morris<br>Huw Roderick |

## Rhagfyr

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

**4** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa: Parch Richard Lewis
Oedfa'r hwyr yn y Garn: Y Barch Judith Morris

7 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
'Naws y Nadolig' – Mrs Margaret Griffiths

**11** Oedfa Nadolig y plant am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at yr ysgol Sul

15 Gwasanaeth Ysgol Rhydypennau yn y Garn am 7 o'r gloch

16 Cymdeithas Lenyddol y Garn
'Dathlu'r Nadolig' yng ngofal Alan Wynne Jones

**18** Oedfa'r bore dan arweiniad Tecwyn Jones
Oedfa gymun yn yr hwyr dan arweiniad y Gweinidog

**25** *Dydd Nadolig*
Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog am 9 o'r gloch

**31** Gwylnos i groesawu'r flwyddyn newydd am 11.30 p.m.
dan arweiniad y Gweinidog

***Cymdeithas Lenyddol y Garn***

Llywydd: Parch Wyn Morris
Cadeirydd: Gwynant Evans
Is-gadeirydd: Vernon Jones
Ysgrifennydd: Janet Roberts
Trysorydd: Bet Evans
Trefnyddion y Bwyd: Elina Davies a Margaret Rees

Llongyfarchiadau calonnog:

i Heledd Ann Hall a Brian Clarke a briodwyd gan y Gweinidog yng Nghapel y Garn ddydd Mercher, 31 Awst

i ieuenctid y capel a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau.

Cydymdeimlir yn ddwys a diffuant iawn ag Alun ac Enid Jones, Gwyddfor, a'r teulu yn eu profedigaeth enbyd o golli Gwion. Mae'r teyrngedau lu a gafwyd iddo mewn amrywiol feysydd ac ardaloedd yn tystio i'w ddoniau unigryw a'i gymeriad addfwyn a thyner. Bu'n aelod gwerthfawr o'r ysgol Sul ac fe'i derbyniwyd yn aelod yn y Garn gan y cyn-weinidog, Y Parch Elwyn Pryse.

Meddyliwn yn arbennig am Alun ac Enid wrth iddynt symud i fyny i ardal Chwilog i helpu i ofalu am y teulu bach. Bydd chwithdod mawr ar eich ôl yn yr ardal, a hyderwn y teimlwch o nerth a chysur yr Arglwydd wrth i chi wynebu'r cyfnod anodd hwn.

## *Ysgol Sul y Garn*

Mae Marian wedi hysbysu Pwyllgor yr Ysgol Sul o'i dymuniad i roi'r gorau i'r gwaith o fod yn arolygydd yr ysgol Sul am y tro oherwydd pwysau gwaith.

Yn naturiol, mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau olynydd mor fuan â phosib. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgymryd â gwaith y Cydlynydd, neu os gwyddoch am rywun a allai fod â diddordeb, cysylltwch â'r Gweinidog, os gwelwch yn dda.

Hefyd, byddem yn gwerthfawrogi pe bai rhagor o aelodau'r eglwys yn barod i fod yn athrawon ysgol Sul o bryd i'w gilydd. Unwaith eto, cysylltwch â'r Gweinidog os ydych yn barod i gynorthwyo.

***Cludiant***: Mae blaenoriaid yr eglwys yn awyddus i drefnu cludiant ar gyfer unrhyw aelod sy'n analluog i deithio i'r oedfaon ar y Sul neu i'r gweithgareddau yn ystod yr wythnos. Os ydych yn dymuno manteisio ar y trefniant hwn, cysylltwch ag ysgrifennydd yr eglwys. (alan.jones212@btinternet.com; 01970 828163)

## *Emyn ar Gyfer Dydd y Cofio*

Tyrd atom, Dad trugarog,
    Cans tyner yw yr awr
Y daethom i gysegru
    Y cof am aberth mawr,
A ninnau wrth y gofeb
    Yn gwrando'u henwau hwy
Eiriolwn am ddyfodol
    Heb sôn am ryfel mwy.

Tydi yw'r un sy'n lleddfu
    Archollion dwfn pob oes,
Tydi sydd yn cysuro
    Teuluoedd dan eu croes,
Drwy ddagrau yr atgofion
    Rhown arnat nawr ein pwys
Wrth daenu y plethdorchau
    Yn oerni'r bore dwys.

Diolchwn am y rhyddid
    A daenwyd trosom c'yd,
Wrth droi i'n llwybrau dyddiol
    Yn sŵn ymgyrchoedd drud.
O Dduw, eleni eto
    Parhaed dy gysgod di
Dros diroedd pell lle gorffwys
    Llwch ein hanwyliaid ni.

*Vernon Jones*

Estynnwn ein llongyfarchiadau calonnog i Vernon ar ei lwyddiannau niferus mewn nifer o eisteddfodau'n ddiweddar – ac rydym yn ddiolchgar iawn iddo am y fraint o gael cyhoeddi ei emynau a'i gerddi yn 'Gair o'r Garn'.



*Swper Haf Bach Mihangel Capel y Garn*
*Ysgoldy Bethlehem, Nos Wener, 9 Medi*


19



## *Ysgol Sul Capel Seion*

Dathlwyd diwedd blwyddyn yr ysgol Sul nos Fercher, 13 Gorffennaf, mewn arddangosfa o waith y dosbarthiadau ar hyd y flwyddyn ar y thema Dathlu a chyflwyniad gan aelodau'r Clwb am yr Ordeiniad Cyntaf ym 1811. Cafwyd cefnogaeth ffrindiau a rhieni ynghyd ag ymweliad ar ran yr Henaduriaeth gan Mrs Mair Jones, Lledrod. Canmolodd y plant a'r athrawon ar eu gwaith wrth gyflwyno'r Dystysgrif. Ar noson eithriadol o braf ymunodd pawb i fwynhau'r barbeciw a gafodd ei baratoi a'i weini'n flasus iawn gan nifer o'r tadau. Ailgychwynnodd yr ysgol Sul gyda SPLASH ym mhwll nofio Machynlleth brynhawn Sul, 11 Medi.

## *Colli Dyfrig*

Tristwch enbyd i ardal gyfan ddechrau Awst fu marwolaeth Dyfrig Jones, Gwarallt. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys ag Eirlys ei fam, Angharad ei chwaer ac Emma ei ferch fach yn eu colled a'u hiraeth. Roedd Dyfrig yn fachgen addfwyn a chwrtais bob amser ac yn barod iawn ei gymwynas. Roedd yn gefnogol iawn i weithgareddau'r pentref a byddwn yn gweld ei golli ym mhob agwedd ar weithgaredd yr ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol yn Seion. Yn saer coed ac adeiladwr medrus, gwelir enghreifftiau o'i waith ledled yr ardal yn dyst i'w grefft a'i ofal. Maent hefyd yn deyrnged i'w ddycnwch i fynnu gweithio, a hynny dan amgylchiadau anodd afiechyd blin, dros nifer o flynyddoedd.


## *Cwrs Alffa*

bob nos Fercher am 7 o'r gloch

yn Festri Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth

5 Hydref: Noson Gymdeithasol

19 Hydref: Dechrau'r cwrs 8 wythnos

Dewch i: gymdeithasu dros baned
gyfarfod â phobl newydd
drafod y ffydd Gristnogol

... i gyd mewn awyrgylch gyfeillgar ac anffurfiol

Am ragor o fanylion: alffaseion@hotmail.co.uk
Croeso cynnes i bawb!

# *Organ W Llewelyn Edwards*



Yn dilyn uno eglwysi'r Gerlan a'r Garn, symudwyd organ arbennig iawn o'r Gerlan i festri'r Garn. Fel y nodir ar y plac a osodwyd ar yr organ: 'Defnyddiwyd yr offeryn hwn gan W Llywelyn Edwards (1908–2000) i gyfansoddi ei emyndonau'. Yn ôl *Cydymaith Caneuon Ffydd*:

> Ganed William Llewelyn Edwards yn y Ruel Uchaf, Llandre, yr hynaf o ddau o feibion John ac Annie Edwards. Treuliodd ei oes yn ffermio'r Ruel, cyn ymddeol i Fron Rhiwel, Bow Street, dafliad carreg o'r fferm. Yr oedd yn gerddor medrus a chofir am ei wasanaeth i ganiadaeth y cysegr. Cyhoeddodd ddau gasgliad o emyn-donau, *Clychau'r Maes* (1976) a *Caniadau'r Meysydd* (1995), a threuliodd 40 mlynedd yn olygydd tonau *Trysorfa'r Plant* ac *Antur*. Yr oedd yn aelod gyda'r Presbyteriaid yng Nghapel y Garn, Bow Street, ac roedd galw cyson am ei wasanaeth fel arweinydd cymanfaoedd canu.

Priodol iawn, felly, yw bod yr organ hon yn dychwelyd i'r Garn, a hyderir y bydd yn gyfrwng mawl am flynyddoedd eto i ddod.

Am wybodaeth bellach, darllenwch erthygl Gaenor Hall ar wefan y Garn (www.capelygarn.org/wlledwards.php).

I weld lluniau o'r Gerlan yn dilyn cau'r adeilad, ewch i: www.flickr.com/photos/traedmawr/sets/72157627090238363/

## *Taith Flynyddol Capel Rehoboth*

Sir Benfro oedd cyrchfan taith Capel Rehoboth eleni, a hynny ddydd Sadwrn, 10 Medi. Cyrhaeddwyd Tyddewi yn brydlon am 11 o'r gloch lle roeddem i gwrdd â'n tywyswyr am y dydd, sef Wiliam, Gwenan a Dewi Huw Owen. Ar ôl mwynhau paned o goffi, cawsom ein tywys o amgylch yr Eglwys Gadeiriol gan Dewi Huw, ac roedd ei wybodaeth am hanes yr adeilad hynafol yn wych. Cawsom fore pleserus iawn yn gwrando arno'n disgrifio ac adrodd hanesion am fawredd yr adeilad.

Yn y prynhawn ymwelwyd â Chaerfarchell lle mae cartref y teulu, ac fe'n croesawyd i festri'r capel gan Wiliam a Gwenan Owen. Cawsom eglurhad ar ystyr enw'r pentref a disgrifiad o enwau rhai o'r caeau (neu 'parc' yn nhafodiaith sir Benfro), enwau megis Parc Nannw Morgan, Parc Lleine Mortimer, Parc Tregydd, Parc Bach y Fynwent a Pharc y Maen. Mae'n beryg i'r enwau yma fynd ar goll pan fo newydd-ddyfodiaid yn symud i'r ardal, felly mae'n bwysig eu bod wedi cael eu cofnodi i'r dyfodol. Yna aethom i weld y capel nad oes enw iddo – yn 1763 roedd yn eiddo i'r Caerfarchell Society – ac yn eu dydd bu nifer o fawrion y genedl yn addoli yno.

Ar ôl cael paned o de yn y festri, cyflwynodd Bob Williams air o ddiolch i'r teulu am rannu eu holl wybodaeth ac am eu croeso arbennig i ni gydol y dydd.

Aethpwyd i westy'r Cambrian yn Solfach am bryd o fwyd ardderchog cyn troi am adre. Diolch i'r rhai a fu'n gyfrifol am drefnu'r daith ac i Brian am yrru'r bws.

*Carys Briddon*

## *Teithiau Cerdded Dewi Sant*

Yn dilyn llwyddiant Taith y Crynwyr a Thaith Mari Jones yn ddiweddar, penderfynwyd trefnu un daith gerdded ychwanegol eleni, sef Taith Ann Griffiths. Cynhelir y daith hamddenol, a fydd oddeutu 5–6 milltir o ran ei hyd, ddydd Sadwrn, 8 Hydref. Dilwyn a Carys Jones, Tal-y-bont, fydd yn ei harwain. Croeso cynnes i bawb.
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Gweinidog
neu'r Br John Leeding (glannant@googlemail.com; 01970 832672)




*Criw Rehoboth gyda Dewi Huw Owen ger Eglwys Gadeiriol Tyddewi*




Bore Sul, 11 Medi, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig, dan arweiniad y Gweinidog, yng Nghapel y Garn i roi sylw arbennig i Apêl y Cartref Cariadus. Cymerwyd rhan hefyd gan Carwen a Lois, a dangoswyd ffilm yn rhoi cipolwg ar yr ardal a'r gwaith a wneir yn y cartref hwn i blant amddifaid yn Durtlang, Mizoram. Yn dilyn casgliad y Sul ac yn Swper Haf Bach Mihangel, yn ogystal â thaith gerdded plant yr ysgol Sul, trosglwyddwyd £300 i'r gronfa.

## *Taith Mary Jones (eto)*




Wedi eu hysbrydoli, efallai, gan gamp y rhai a gyflawnodd y daith hon dros ddau ddiwrnod ym mis Mehefin, penderfynnodd rhai aelodau o Rehoboth, Taliesin, ddilyn ôl troed Mary Jones dros yr haf. Cerddodd wyth ohonom y daith mewn pum rhan, gyda ffrindiau eraill yn ymuno mewn ambell gymal. Gan fod misoedd Awst a Medi yn cael eu hystyried yn haf yng Nghymru, cafwyd amrywiaeth – o dywydd o law trwm iawn, gwyntoedd cryfion (corwynt Katia) ac ambell lygedyn o heulwen. Serch hynny, ni chafodd ein haelodau eu trechu gan yr elfennau, a chyraeddasom ben y daith (sef tŷ Thomas Charles, neu Fanc Barclays, fel y mae heddiw) yn y Bala ar Fedi'r 12fed.

Wrth inni grwydro'n hamddenol, gan gerdded rhwng pump a hanner a chwech a hanner o filltiroedd y dydd, ni allwn ond rhyfeddu at nerth a gallu Mary Jones yn cwblhau'r siwrne o wyth milltir ar hugain mewn un diwrnod (a cherdded yn ôl yr holl ffordd drannoeth). Tipyn o ferch!

*John Leeding*



*Priodas Heledd Ann Hall a Brian Clarke*
*yng Nghapel y Garn, 31 Awst*

***Rhaglen Dorcas***

Nod Rhaglen Dorcas yw annog chwiorydd i rannu drwy gyfeillgarwch a gwasanaeth, ac mae'n gynllun a fydd yn cael ei weithredu ar draws Cymru.

Cyflwynir y cynllun newydd a chyffrous hwn gan y Parch Meirion Morris, Swyddog Bywyd a Thystiolaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru – manylion i ddilyn.

## *Iesu Hanes*

Y Beibl – Gair Duw, yr Ysgrythurau Sanctaidd, yr awdurdod terfynol ar lu o faterion, cyfrol i'w thrin gyda pharch a pharchedig ofn. Yn sicr, am ganrifoedd lawer ni fu'n gyfrol i'w thrin yn feirniadol gan y byddai hynny'n bwrw amheuaeth ar ei geirwiredd. Ac eto, o ganlyniad i'r Aroleuo (*Enlightenment*), dyna sydd wedi digwydd. Un o'r rhai cyntaf i drin yr efengylau'n feirniadol oedd Samuel Reimarus, athro ym Mhrifysgol Hamburg yn hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif. Ni chyhoeddwyd dim o'i waith yn ystod ei fywyd, rhag ofn! Un arall oedd Thomas Jefferson, Arlywydd America. Roedd bodolaeth y *Jefferson Bible* yn hysbys, ond ni chyhoeddwyd mohono tan 1904, deunaw mlynedd a thrigain ar ôl ei farw.

Yr enw a gysylltir yn bennaf ag astudio'r efengylau'n feirniadol yw David Fredrich Strauss, athro ym Mhrifysgol Zurich, a gyhoeddodd ei waith mawr, *The Life of Jesus Critically Examined*, yn 1835–6, gwaith a gyfieithwyd i'r Saesneg gan Mary Ann Evans, sy'n fwy adnabyddus fel George Elliott, y nofelydd. Fe gollodd Strauss ei swydd o ganlyniad i'w waith, ac ni chafodd swydd arall o fewn academia weddill ei oes.

Fe wyddom am waith Albert Schweitzer, *The Quest of the Historical Jesus*, ac yn wir mae nifer sylweddol o ysgolheigion Beiblaidd yn yr ugeinfed ganrif wedi bod yn ceisio penderfynu pa rannau o'r efengylau, ac yn enwedig ddywediadau Iesu, sy'n gwbl ddilys, Rhaid cofio bod y pedair efengyl wedi'u hysgrifennu ar ôl i Paul ysgrifennu'i lythyrau, llunio'i ddiwinyddiaeth a'i lledaenu drwy'r eglwysi. Nid yw'n anodd felly i weld fod awduron yr efengylau wedi'u cyflyru gan y ddiwinyddiaeth hon a darllen rhannau ohoni i mewn i'w gwaith, a'r darnau hynny o'r herwydd heb fod yn ddysgeidiaeth ddilys Iesu.

Mi rydw i am sôn am un prosiect yn niwedd yr ugeinfed ganrif yng Nghaliffornia, sef y Jesus Seminar. Sefydlwyd y Westar Institute gan Robert W. Funk, ysgolhaig a fu'n dysgu mewn nifer o golegau a phrifysgolion, ond fe deimlai fod yna gyfyngu arno oherwydd uniongrededd y sefydliadau hynny. Fe deimlai y dylai fod yn rhydd i ymchwilio i'r ysgrythurau heb unrhyw ragdybiaethau. Dyna pam y sefydlodd y Westar Institute.

Gwaith cyntaf y sefydliad oedd ceisio dod o hyd i Iesu hanes. Mae nifer o ysgolheigion Beiblaidd yn gymrodyr o'r 'Institute', ac fe roddwyd tasg i bob un i astudio darn o'r Efengyl. Yna, mewn cyfafod byddai pob un yn traethu gan roi ffrwyth ei ymchwil, a'i farn a oedd y geiriau'n ddilys ai peidio. Wedyn byddai'r cymrodyr yn pleidleisio trwy ddefnyddio un o bedair pelen; un goch os oeddent yn sicr fod y geiriau yn ddilys, un binc os oeddent yn weddol sicr, un lwyd os oedd yna gryn amheuaeth, ac un ddu os oeddent yn bendant fod y geiriau'n annilys, Wedi gwneud y gwaith hwn i gyd fe gyhoeddwyd *The Five Gospels* (yn cynnwys Efengyl Thomas, sydd efallai yn hŷn na'r efengylau eraill), cyfieithiad newydd o'r ieithoedd gwreiddiol, gyda geiriau Iesu yn un o'r pedwar lliw, yn ôl canlyniad yr ymchwil a'r pleidleisio.

Americaneg yw iaith y cyfieithiad. Yn y ‘Bregeth ar y Mvnydd’ fe ddywedir:

Congratulations to the poor in spirit!
Heaven’s domain belongs to them,
Congratulations to those who grieve!
They will be consoled. mewn print pinc!

Ar ddechrau Efengyl Marc lle dywed Iesu: ‘Yr wyf yn mynnu, glanhaer di’, fe geir ‘Okay, you’re clean’ mewn print du.

Does dim print coch yn Efengyl loan, a dim ond un frawddeg mewn pinc – ‘A prophet gets no respect on his own turf.’ Yng Ngweddi’r Arglwydd (Mathew) dim ond ‘Ein Tad’ sy’n goch, a’r gweddill yn gymysgedd o’r tri lliw arall. Mae ‘Ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys’ mewn print du. Dim ond dwywaith yn yr efengylau y defnyddir y gair ‘eglwys’. A oedd hi ym mwriad lesu’r lddew i sefydlu eglwys a chrefydd newydd? Ond erbyn ysgrifennu’r efengylau roedd eglwysi eisoes yn bod. Dyma enghraifft o ddarllen sefyllfa diwedd y ganrif gyntaf yn ôl i mewn i’r efengyl.

Pa fath Iesu sy’n ymddangos wedi i’r efengylau fynd trwy felin y Jesus Seminar? Cyhoeddodd Funk ei farn ef mewn cyfrol *Honest to Jesus*, ac y mae’r Iesu hwnnw yn wahanol iawn i Grist y Gristnogaeth draddodiadol. Mae’n awgrymu fod Iesu wedi’i gamddehongli gan yr Eglwys drwy’r canrifoedd.

Rwy’n seilio gweddill y paragraff hwn a’r nesaf ar waith cymrawd arall o’r Westar Institute, Lloyd Geering o Seland Newydd. O dynnu’r ychwanegiadau o’r efengylau, yr hyn a geir yw Iesu’r dysgawdwr, yr union Iesu y mae’r credoau cynnar yn ei anwybyddu. A’i ddull o ddysgu oedd trwy wirebau (*aphorisms*) a damhegion, union ddull gwŷr doeth (*sages*) yr Hen Destament. Roedd yna bedwar traddodiad yn yr Hen Destament: y traddodiad offeiriadol, a ddaeth yn sail i Iddewiaeth, y traddodiad brenhinol, a ddaeth yn sail i Gristnogaeth, y traddodiad proffwydol, a ddaeth yn sail i Islam, a’r traddodiad doethineb.

Bu’r traddodiad doethineb yn dipyn o Sinderela yn y tair crefydd mono-theistaidd. Ond roedd y gwŷr doeth yn canolbwyntio ar fywyd bob dydd, ym mhrofiad y ddynoliaeth gyfan. Mae rhai ysgolheigion yn galw’r gwŷr doeth hyn yn hiwmanistiaid Hebreig. Nid oedd crefydd fel y gwyddom ni amdani’n bwysig iddyn nhw. Eu diddordeb hwy oedd problemau a rhwystredigaethau bywyd. Ac roedd lesu yn debyg iddyn nhw. Ni ddywedodd lawer am grefydd. Roedd ei ddull o gyfathrebu yn seciwlar, h.y. yn fydol. Siaradai am fywyd bob dydd, yr angen i ofalu am ein gilydd, a’r problemau sy’n dwyn rhaniadau a dolur i gysylltiadau personol. Yn ansawdd a dyfnder ei ddysgu roedd Iesu’n rhagori llawer ar y gwŷr doeth a’i rhagflaenodd. Fe gododd ffrwd doethineb i wastad newydd trwy droi’r ddameg yn *genre* newydd unigryw, peth a’i gwnaeth yn enwog hyd yn oed yn ystod ei fywyd.

Ond wedi dweud hyn, *barn* ysgolheigion y Westar Institute geir yn y gyfrol, barn wedi'i seilio ar y dystiolaeth orau, bid sicr, ond ni all neb fod yn siŵr gant y cant o ddilysrwydd geiriau Iesu fel y'u ceir yn yr efengylau. Mae'n dibynnu beth yw meini prawf y Jesus Seminar. E.e. 'Jesus' sayings and parables cut against the social and religious grain. Jesus' sayings and parables surprise and shock: they characteristically call for a reversal of roles or frustrate ordinary everyday expectations. Jesus' sayings and parables are often characterized by exaggeration, humor, and paradox.'

Mae'n ymddangos i mi eu bod yn mynd rownd mewn cylch; sut gwyddon nhw hyn oni bai eu bod *eisoes* wedi penderfynu beth sy'n ddilys a beth nad yw. Mae ysgolheigion eraill sydd heb fod yn gysylltiedig â'r Jesus Seminar yn anghytuno â nhw; mae un o'r cymrodyr wedi cyhoeddi llyfr *The Jesus Seminar and its Critics*.

Ond i mi mae'r pwyslais ar ddysgeidiaeth Iesu yn hollbwysig. Yn un o'i lyfrau diweddaraf mae Geering yn holi'r cwestiwn: 'Is it the case that people paid attention to what he said because he was already held in honour, or was it the striking nature of his words that caused people to come to honour him?' Mae'n amlwg i mi, fel i Geering, mai'r ail sy'n gywir. Onibai am ei ddysgeidiaeth ni fyddai'n ddim ond saer cyffredin yn perthyn i'r dosbarth gweithiol. Mae'n resyn fod Paul a'r rhai a'i dilynodd wedi creu corff o ddiwinyddiaeth na fyddai Iesu'n ei adnabod, ac, yn wir, a fyddai'n anathema iddo. Mae Don Cupitt yn mynd mor bell â dweud: 'By deifying Jesus the Church destroyed almost everything he stood for'.

Cwestiwn i gloi. Pe na bai Paul a'i ddilynwyr wedi creu eu ffurf nhw ar Gristnogaeth, ac na fyddai gennym ddim mwy na dysgeidiaeth Iesu, a fyddai gennym heddiw grefydd Gristnogol wedi ymledu trwy Ewrop i ddechrau, ac yna trwy'r byd?

Un arall o feini prawf y Jesus Seminar i feddwl drosto – 'Beware of finding a Jesus entirely congenial to you.'

*Delwyn Tibbott*

(Erthygl a fydd yn siŵr o ennyn trafodaeth ymhlith ein darllenwyr – o'r *Gadwyn*, cylchgrawn Eglwys Bresbyteraidd y Crwys, Caerdydd, gyda chaniatâd caredig)


***Swyddogion yr Ofalaeth***

*Cadeirydd*: Mrs Ina Williams, Brynawel, Pant-y-crug, Capel Seion (01970 880489)

*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)


Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **11 Rhagfyr**:


Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com